

Maritime Adventures

John Paul Evans

“Pa antur a gawn ni heddiw Peter?”...

“Gadewch i ni gael antur ar y môr J.P”

Yn blentyn, byddwn yn cael fy nghyfareddu gan y cymeriad animeiddio ‘Mr Benn’. Bonheddwr mewn siwt oedd e a fyddai’n mynd i mewn i siop gwisgoedd hud a lledrith gan gael anturiaethau yn y wisg o’i ddewis. O edrych yn ôl fel oedolyn, roedd hyn i’w weld yn gysylltiedig ag isddiwylliant hoyw lle y byddai dynion yn aml yn gwisgo er mwyn gwireddu eu ffantasiau.

Mae gan rôl y morwr arwyddocâd arbennig ar hyd y canrifoedd o ran atyniadau rhwng pobl o’r un rhyw, o straeon Herman Melville drwodd i Jean Genet – mae grym aruthrol i ddirgelion y teithiwr ar y cefnforoedd.

O leiaf mae’n ddiddorol awgrymu, pan fydd hunaniaeth yn cael ei mygu, y canlyniad yw’r angen i ymchwilio i’r hunan mewnol hwnnw drwy ddulliau eraill sydd wrth law i ni. Bydd rhai dynion sy’n darganfod eu bod yn hoyw yn teimlo’r rheidrwydd i’w profi eu hunain fel ‘dynion go iawn’ yn y ‘byd go iawn’, lle bydd eraill yn gwisgo ac yn crwydro byd ffantasi yn eu dychymyg.

Awgryma Judith Butler (cyfieithiad):

“Os mai rhywbeth mae rhywun yn mynd i fod – ond ni all byth â bod – yw rhywedd, wedyn mae rhywedd ynddo’i hun yn rhyw broses o ddod neu weithgarwch ac ni ddylai’r rhywedd gael ei ystyried fel enw neu rywbeth sylweddol neu farciwr diwylliannol sefydlog, ond yn hytrach fel gweithred ddi-baid ac ailadroddus o ryw fath.”¹

Syniad diddorol yw’r sylw hwn ar y broses o “naturioli”, y ffordd rydyn ni’n dod yn ddynion ac yn fenywod drwy godau cymdeithasol cymeradwy sy’n cael eu hatgyfnerthu drwy eu hailadrodd, oherwydd ei bod yn rhywbeth y mae’r byd hoyw wedi llwyddo i fynd y tu hwnt iddo.

Mae gwisgo a chwarae rôl yn gadael i ni grwydro bydoedd roedden ni'n meddwl ein bod wedi'u gadael y tu ôl i ni yn ein plentyndod, amser pryd roedd unrhyw beth yn teimlo'n bosibl, amser o gogio a smalio.

Gyda gwisgoedd, modelau, ffigurau wedi'u torri allan a gwirionedd y ddelwedd ffotograffig, rydw i a'm partner, Peter, yn smalio bod yn 'ddynion go iawn' ar y cefnforoedd sydd yn fy achos i'n dipyn o gamp i'r dychymyg.

Ond mewn gwisg ffansi rydyn ni'n mynd i gyflwr o 'ddod'... dynion go iawn ydyn ni...dynion y mor...morwyr.

¹Judith Butler *Gender Trouble*

© John Paul Evans

Mae'r testun hwn yn rhan o **What is lost... what has been**
Arddangosfa gan **John Paul Evans** yn **Oriel Mission**
26 Mawrth - 14 Mai 2022

Oriel Mission
Gloucester Place
Yr Ardal Forol
Abertawe, SA1 1TY
Y Deyrnas Unedig

www.missiongallery.co.uk
info@missiongallery.co.uk
+44 (0) 1792 652 016

Mission Gallery



**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

